

Mai 2004

**CANLLAWIAU A FFORMAT AR
GYFER PARATOI A
CHYFLWYNO DATGANIADAU
YN DILYN ERTHYGL 2 O'R
PROTOCOL YCHWANEGOL I
INFCIRC/263, O GYTUNDEB
MESURAU DIOGELWCH Y
DU/EURATOM/IAEA**

Department of Trade and Industry
UK Safeguards Office
1st Floor
4 Abbey Orchard Street
London
SW1P 2HT

CYNNWYS

TUDALEN

I.	CYFLWYNIAD	3	
	Pwrpas	3	
	Cefndir	3	
	Erthygl 2 Protocol Ychwanegol y DU	4	
	Cyfrinachedd	5	
	Mynediad Rheoledig	5	
	Prosesu a Gwerthuso'r Wybodaeth a Ddarparwyd	6	
II.	ARWEINIAD CYFFREDINOL	7	
III	CANLLAWIAU PENODOL	9	
	III.1	Erthygl 2.a.(i)	9
	III.2	Erthygl.2a.(iii)	16
	III.3	Erthygl 2.a.(vii)	20
	III.4	Erthygl 2.a.(viii)	26
	III.5	Erthygl 2.a.(ix)	26
	III.6	Erthygl 2.b	26

I. CYFLWYNIAD

Pwrpas

Pwrpas y canllawiau hyn yw cynorthwyo operadwyr¹ i ddarparu'r wybodaeth i'r Swyddfa Mesurau Diogelwch y DU sydd ei angen yn dilyn y Protocol Ychwanegol i'r cytundeb Mesurau Diogelwch DU/Euratom/IAEA² (a gyfeirir ato o hyn allan fel y Protocol Ychwanegol).

Cefndir

Datgelwyd gwendidau yn system mesurau diogelwch yr Awdurdod Ynni Atomig Rhyngwladol (IAEA) gan nifer o ddiwyddiadau yn y 1990au cynnar, yn fwyaf arbennig y darganfyddiad yn dilyn Rhyfel y Gwlff 1991 bod Irac wedi bod yn datblygu rhaglen arfau niwclear cudd tra'n arddel cytundeb mesurau diogelwch cyflawn gyda'r IAEA. Bu i'r IAEA ymateb i'r digwyddiadau hyn trwy ddatblygu set o fesurau i gryfhau effeithiolrwydd a gwella effeithlonrwydd mesurau diogelwch o dan gynllun a enwyd yn Rhaglen 93+2. Prif ffocws y rhaglen oedd datblygu dulliau i wella gallu'r IAEA i ganfod gweithgareddau niwclear sydd heb eu datgelu mewn Gwladwriaethau gyda chytundebau mesurau diogelwch cyflawn³ (h.y. mewn Gwladwriaethau heb arfau niwclear (NNWS) ond gyda chytundebau mesurau diogelwch o'r math y gofynnwyd amdanynt gan y Cytundeb Cyfyngu ar Arfau Niwclear (NPT)).

Roedd y mesurau a ddatblygwyd o dan Raglen 93+2 yn disgyn i ddau gategori: y rhai y gallai'r IAEA eu gweithredu drwy ei awdurdod cyfreithiol presennol a'r rhai a oedd yn gofyn am awdurdod cyfreithiol newydd, h.y. cwblhad cytundebau newydd gyda'r Gwladwriaethau (protocolau sy'n ychwanegol i gytundebau amddiffyniad). Ym mis Mai 1997, cymeradwywyd protocol model sy'n ychwanegol i'r cytundebau mesurau diogelwch cynhwysfawr⁴ gan Fwrdd Llywodraethwyr yr IAEA.

Er i'r protocol model gael ei ddatblygu i gryfhau gallu'r IAEA i ganfod gweithgareddau niwclear a oedd heb eu datgan mewn NNWS, mater pwysig yn ystod y trafodaethau oedd ehangder ei gymhwysiad i Wladwriaethau eraill heblaw am NNWS. Er nad yw'n ofynnol o dan yr NPT, mae pob un o'r pum Gwladwriaeth⁵ sy'n berchen ar arfau niwclear (NWS), gan gynnwys y DU, wedi cwblhau cytundebau mesurau diogelwch gwirfoddol gyda'r IAEA sy'n caniatáu i'r IAEA benodi safleoedd niwclear penodol i dderbyn archwiliad amddiffyniad rheolaidd. Y mae rhai NNWS, fodd bynnag, wedi dadlau fod y cytundebau hyn yn peri fod eu diwydiannau niwclear yn cario 'baich' mesurau

¹ Defnyddir y term 'operadwyr' fel term ar gyfer yr holl gyfrif sy'n debygol o orfod darparu gwybodaeth yn dilyn Erthygl 2 o'r Protocol Ychwanegol.

² Miscellaneous Series No. 21 (1999) Cm 4282 (ar gael o Lyfrfa Ei Mawrhydi). Mae'r rhannau sy'n berthnasol i'r datganiadau wedi eu cynnwys yn y ddogfen hon.

³ Mae'r rhain yn seiliedig ar fodel INFCIRC/153 o'r cytundeb model.

⁴ INFCIRC/540

⁵ Y pum Gwladwriaeth NPT sy'n cael eu cydnabod fel Gwladwriaethau sydd ag arfau niwclear yw'r: DU, UDA, Rwsia, Tsieina a Ffrainc.

diogelwch nad yw o reidrwydd yn cael ei rannu gan ddiwydiannau cymharol yn y NWS sy'n cystadlu â hwy. O ganlyniad, roedd y galw i gymhwyso mesurau'r protocol yn ehangach o fewn NWS yn codi'n gyson yn y trafodaethau protocol. Ffactor allweddol wrth gytuno ar y protocol model ychwanegol oedd y datganiadau gan NWS o'r mesurau y byddent yn eu gweithredu. Nododd y DU y byddai'n derbyn unrhyw fesur a fyddai un ai:

- a) yn cyfrannu tuag at gynyddu gallu'r IAEA i ganfod gweithgareddau niwclear na ddatganwyd yn yr NNWS; neu
- b) yn gwella effeithlonrwydd neu effeithiolrwydd mesurau diogelwch yr IAEA mewn safleoedd yn y DU a benodwyd ar gyfer archwiliad.

Egwyddor bellach a fabwysiadwyd oedd lle y darparwyd gwybodaeth ynglŷn â gweithgareddau mewn lleoliad arbennig, byddai mynediad yn cael ei ganiatáu i archwilwyr yr IAEA.

Yn sgil yr uchod, cymeradwywyd y Protocol Ychwanegol gan Fwrdd Llywodraethwyr yr IAEA ym mis Mehefin 1998 ac fe'i arwyddwyd ar yr 22ain Medi 1998. Derbyniodd y **Ddeddf Mesurau Diogelwch Niwclear 2000** (NSA) gydsyniad brenhinol ar 25 Mai 2000. Roedd y ddeddf hon yn sicrhau fod gan y DU y grym cyfreithiol angenrheidiol i gyflawni'r mesurau a oedd yn orfodol o dan y Protocol Ychwanegol. Daeth y ddeddf i rym drwy Orchymyn Dechrau pan ddaeth Protocol Ychwanegol y DU i rym ar y 30 Ebrill 2004.

Erthygl 2 Protocol Ychwanegol y DU

Cydrannau canolog system mesurau diogelwch cryfach a mwy effeithiol yr IAEA yw'r hawl i ragor o wybodaeth a gwell mynediad i safleoedd. Bydd y DU yn darparu mwy o wybodaeth ynglŷn â'i gweithgareddau niwclear ar sail y datganiadau yn Erthygl 2 o'r Protocol Ychwanegol.

Disgrifia'r canllawiau hyn y fformat ar gyfer paratoi a chyflwyno datganiadau ar gyfer yr erthyglau hynny ble y mae'n ofynnol fod gwybodaeth yn cael ei ddarparu i'r UKSO yn unig. Bydd UKSO wedyn yn crynhoi datganiad ar ran y DU gyfan ac yn ei gyflwyno i'r IAEA. Bydd y wybodaeth sy'n orfodol o dan Erthygl 2.a.(iv), 2.a.(v), 2.a.(vi) a pheth gwybodaeth o Erthygl 2.a.(vii) o'r Protocol Ychwanegol, sy'n ymdrin â deunydd niwclear, yn cael ei gyflwyno i'r IAEA gan y Comisiwn Ewropeaidd (Euratom). Dylid nodi nad yw'r wybodaeth sy'n orfodol yn dilyn Erthygl 2 yn bwriadu cyfyngu ar hawl yr IAEA i dderbyn gwybodaeth ynglŷn â safleoedd niwclear y DU a'i stoc o ddeunydd niwclear sifil yn unol â chytundeb⁶ mesurau diogelwch DU/Euratom/IAEA.

Bydd y rhan fwyaf o'r wybodaeth a ddarperir gan y DU o dan Erthygl 2 o'r Protocol Ychwanegol yn wybodaeth na fydd wedi ei cheisio na'i defnyddio'n rheolaidd o'r blaen ar gyfer pwrpas amddiffyniad. O ganlyniad, bydd y canllawiau hyn a'r fformat ar gyfer cyflwyno gwybodaeth yn cael eu hadolygu

⁶ INFCIRC/263

o dro i dro. Bwriad y datganiad yw galluogi i'r wybodaeth a ddarperir fod yn gynhwysfawr heb i'r DU orfod darparu adroddiadau maith a diangen.

Mae Rhannau II a III isod yn darparu canllawiau cyffredinol ynglŷn â chyflwyno datganiadau ac yn rhoi canllawiau manwl ar gyfer pob is-erthygl o Erthygl 2 y Protocol Ychwanegol ble y dylid cyflwyno'r wybodaeth i'r UKSO. Disgrifir bwrpas a defnydd yr wybodaeth, ynghyd â'r fformat ar gyfer cyflwyno'r wybodaeth. Darperir enghreifftiau ac eglurebau yn ogystal.

Cyfrinachedd

Dylid marcio'n glir unrhyw wybodaeth a ddarperir i'r UKSO yn ogystal ag unrhyw wybodaeth gyfrinachol arall gyda'r marc gwarchod priodol. Mae'r IAEA o dan orfodaeth i ddarparu trefniadaeth er mwyn gwarchod unrhyw wybodaeth gyfrinachol sy'n dod i'w feddiant yn unol â darpariaeth Erthygl 15 y Protocol Ychwanegol. Adolygir arferion a threfniadau'r IAEA parthed cyfrinachedd yn gyfnodol gan Fwrdd Llywodraethwyr yr IAEA, bwrdd y mae'r DU yn aelod parhaol ohono. Mae'n drosedd o dan Adran 6(3) o Ddeddf Mesurau Diogelwch Niwclear 2000 i'r UKSO ddatgelu unrhyw wybodaeth a gyflwynir iddo, heblaw am achosion a nodir yn Adran 6(2) y Ddeddf.

Mynediad Rheoledig

O dan delerau'r Protocol Ychwanegol mae'r DU wedi cytuno i ganiatáu mynediad i bob lleoliad y darperir gwybodaeth amdanynt yn unol ag Erthygl 2 neu, lle y byddai angen, unrhyw leoliad yn y DU (Erthygl 5.c). Fodd bynnag, mae hi'n debygol y bydd yr IAEA yn gwneud cais am fynediad ychwanegol i leoliadau lle y mae gweithgareddau niwclear yn digwydd.

Ar gyfer rhai lleoliadau a nodir yn natganiadau Erthygl 2 neu mewn safleoedd niwclear mae posibilrwydd y bydd angen gwneud trefniadau ar gyfer mynediad rheoledig i'r IAEA yn unol ag Erthygl 7 o'r Protocol Ychwanegol. Dylai'r angen am fynediad rheoledig gael ei fod wedi eu nodi yn y datganiadau perthnasol. Lle y mae angen amlwg am fynediad rheoledig cyson, dylai'r trefniadau a gynigir ar gyfer rheoli mynediad yr IAEA i'r safleoedd hyn gael eu cyflwyno i'r IAEA drwy'r UKSO cyn gynted â phosibl. Ar gyfer safleoedd eraill, caniateir darparu cynigion ar gyfer mynediad rheoledig pan dderbynnir hysbysiad fod yr IAEA angen mynediad. Caiff y cynigion ynglŷn â sut y gellir rheoli mynediad eu gwerthuso gan yr IAEA yng ngoleuni eu hamcanion penodol. Fel y nodir yn Erthygl 7 y Protocol Ychwanegol, ni ddylai'r trefniadau rwystro'r IAEA rhag "cynnal y gweithgareddau sy'n angenrheidiol ar gyfer sicrhau fod yr wybodaeth a ddarparwyd yn unol ag Erthygl 2 yn gywir a chyflawn a sicrhau fod dim anghysonderau ynglŷn â'r wybodaeth honno."

Prosesu a Gwerthuso'r Wybodaeth a Ddarparwyd

Bydd yr wybodaeth a ddarperir yn unol â'r Protocol Ychwanegol yn cael ei phrosesu a'i gwerthuso ynghyd ag unrhyw wybodaeth berthnasol arall sydd ar gael i'r IAEA. Gall yr IAEA ofyn am fwyhad neu eglurhad o unrhyw wybodaeth (Erthygl 2c). Fodd bynnag, mae hi'n bosibl y bydd anghysonderau'n dal i fod yn yr wybodaeth, neu gall fod gan yr IAEA gwestiynau ynglŷn â'r wybodaeth. Mewn sefyllfa o'r fath, byddai'r broses ar gyfer datrys yr anghysonderau neu ateb y cwestiynau yn dilyn yr hyn sydd yn Erthygl 4.d. o'r Protocol Ychwanegol, sy'n debyg i'r broses ymgynghorol gydnabyddedig (ar gyfer datrys sefyllfa o'r fath) sy'n bodoli eisoes o dan gytundebau mesurau diogelwch presennol. Fel arfer, bydd cyfle i egluro'r anghysondeb neu ateb y cwestiwn cyn y daw'r IAEA i gasgliad. Yn aml iawn, gydag anghysonderau ac anomaleddu sy'n codi yn sgil cytundebau mesurau diogelwch cyfredol, gall y broses ymgynghorol ddatrys y mater. Ymhob sefyllfa, dylai'r IAEA gael cyfle i gadarnhau eglurhad a dderbynnir.

II. ARWEINIAD CYFFREDINOL

Fel y nodwyd eisoes, ffactor allweddol wrth gytuno ar fodel y Protocol Ychwanegol (INFCIRC/540) oedd y datganiadau a wnaethpwyd gan y NWS o'r mesurau y byddent yn eu gweithredu. Nododd y DU y byddai'n derbyn unrhyw fesur a fyddai un ai:

- a) yn cynyddu gallu'r IAEA i ganfod gweithgareddau niwclear na ddatganwyd yn yr NNWS; neu
- b) yn gwella effeithlonrwydd mesurau diogelwch yr IAEA mewn safleoedd yn y DU a benodwyd ar gyfer archwiliad rheolaidd.

Felly, dim ond gwybodaeth sy'n bodloni'r gofynion hyn sydd angen ei darparu.

Mae sampl o fformat ar gyfer y datganiadau i'w gweld ar ffurf copi caled er mwyn egluro'r manylder a ddisgwylir. Fodd bynnag, gall yr operadwyr hefyd gyflwyno'r datganiadau ar ffurf electronig ar ddisg PC 3½" neu CD-ROM i hwyluso'i brosesu a'r defnydd a wneir ohono gan yr UKSO.

Mae angen datganiad ar wahân ar gyfer pob is-erthygl neu ddiweddariad. Bydd yr UKSO yn cwblhau'r penawdau (h.y. o 'enw'r Wladwriaeth' hyd 'dyddiad y datganiad') ar gyfer pob datganiad. Dylid rhifo'r datganiadau gan ddechrau gydag "1" ar bob datganiad. Crëir cyfeirnod unigryw ar gyfer pob datganiad trwy gyfuno enw'r Wladwriaeth (Deyrnas Unedig), rhif y datganiad a rhif y cofnod. Caiff y cyfeirnod hwn ei nodi gan UKSO yn y golofn 'Cyf' mewn datganiadau eraill pryd bynnag y mae'n berthnasol i groesgyfeirio i gofnod datganiad arall. Er mwyn hwyluso'r defnydd o'r fath groesgyfeiriadau dylai operadwyr hysbysu'r UKSO pan fo cofnodion yn gysylltiedig â'i gilydd. Dylid gwneud hyn drwy atodi nodyn i'r datganiad.

Mae dau fath o ddatganiad (bydd yr UKSO yn gosod gwybodaeth yn y penawdau ar gyfer y ddau):

- a) datganiadau dechreuol sy'n dynodi statws rhyw weithgaredd neu stoc ar amser arbennig. Y ffurf briodol ar gyfer cyfnod datganiad yw "o'r [dyddiad]". Y dyddiad "o'r " ar gyfer Protocol Ychwanegol y DU yw 30 Ebrill 2004; neu
- b) datganiadau diweddar sy'n darparu disgrifiad o weithgareddau dros gyfnod o amser. Ar gyfer datganiad diweddar y ffurf briodol ar gyfer y cyfnod datgan yw nodi'r dyddiad dechrau a'r dyddiad diweddu gyda'r ddealltwriaeth fod yr wybodaeth yn ddilys ar y dyddiad diweddu. Bydd yr UKSO yn nodi beth fydd y cyfnod datgan – bydd datganiadau diweddar fel arfer yn parhau am flwyddyn galendr gyfan h.y. y cyfnod o 1af Ionawr – 31 Rhagfyr ar gyfer y flwyddyn benodol.

Bydd angen i'r operadwyr ddarparu datganiadau diweddar blynyddol erbyn yr 28ain Chwefror bob blwyddyn. Dylai datganiadau o dan Erthygl 2.a.(vii)

gael eu cyflwyno o leiaf 210 diwrnod **cyn** i'r prosesu ddigwydd. Bydd yr enghreifftiau a ddarperir yn yr adrannau dilynol yn egluro ymhellach.

Dylid cofnodi pob dyddiad ar ffurf BBBB-MM-DD e.e. 2003-11-21 ar gyfer 21 Tachwedd 2003.

Os oes unrhyw newid wedi digwydd ers y datganiad blaenorol, **rhaid** cyflwyno'r cofnod cyfatebol yn y datganiad diweddarau yn ei gyflawnder fel datganiad newydd (gweler yr enghraifft datganiadau dechreuol a datganiadau diweddarau ar dudalen 10 ac 11 o'r canllawiau hyn). Os yw cofnod a gofnodwyd yn flaenorol yn dal i fod yn ddilys ymhob ffordd, yna nid oes angen datganiad diweddarau. Fodd bynnag, dylid hysbysu'r UKSO o gofnodion tebyg mewn nodyn gyda'r datganiadau.

Dylid darparu nodyn neu nodiadau gyda datganiad pryd bynnag y mae'n addas i egluro cofnod ymhellach. Dylai nodiadau o'r fath gyfeirio at rif yr Erthygl yn y Protocol Ychwanegol a rhif y datganiad, fel y bo'n briodol.

Dylid cyfeirio unrhyw gwestiwn a phob datganiad at:

Lawrence Johnson
Department of Trade and Industry
UK Safeguards Office
Bay 118, 1st Floor
4 Abbey Orchard Street
SW1P 2HT

ffôn. 020 7215 0747
ffacs. 020 7215 0745
e-bost: lawrence.johnson@dti.gsi.gov.uk

Bydd yr UKSO yn adolygu pob datganiad i sicrhau ei fod yn gyson a'u hun ac yn bodloni gofynion y Protocol. Bydd UKSO yn ymgynghori gydag operadwyr yn y sefyllfaoedd lle y bydd angen newidiadau sylweddol. Bydd datganiad ar ran y DU gyfan wedyn yn cael ei gyflwyno i'r IAEA.

III. CANLLAWIAU PENODOL

Mae'r adrannau canlynol yn ganllawiau penodol ar gyfer pob is-erthygl unigol yn Erthygl 2 o'r Protocol Ychwanegol.

III.1 Erthygl 2.a.(i)

Noda'r Protocol Ychwanegol:-

“Bydd y Deyrnas Unedig yn cyflwyno datganiad i'r IAEA sy'n cynnwys:

- (i) Disgrifiad cyffredinol o leoliad a gwybodaeth am *weithgareddau datblygu ac ymchwil ym maes cylchred tanwydd niwclear* sy'n digwydd yn unrhyw le ac yn cael eu cyllido, eu hawdurdodi'n arbennig, neu'n cael eu gwneud ar gyfer y Deyrnas Unedig, ar gyfer neu ar y cyd â neu mewn perthynas â Gwladwriaeth Heb Arfau Niwclear (a gânt eu gyfeirio atynt o hyn allan fel “NNWS”).”

Noder fod angen darparu gwybodaeth ynglŷn â *gweithgareddau datblygu ac ymchwil ym maes cylchred tanwydd niwclear*, hyd yn oed os nad yw *deunydd niwclear* yn bresennol.

Mae'r termau mewn llythrennau italig wedi eu diffinio yn Erthygl 18 y Protocol Ychwanegol fel hyn:

Golyga “*Gweithgareddau datblygu ac ymchwil ym maes cylchred tanwydd niwclear*” unrhyw weithgaredd sy'n gysylltiedig ag unrhyw broses neu agwedd ar system ddatblygu unrhyw un o'r canlynol:

- cyfnewid *deunydd niwclear*,
- cyfoethogi *deunydd niwclear*,
- gwneuthuriad tanwydd niwclear,
- adweithyddion,
- cyfleusterau critigol,
- ailbrosesu tanwydd niwclear,
- prosesu (ac eithrio ailbacio neu gyflyru nad yw'n cynnwys gwahanu'r elfennau, ar gyfer storio neu waredu) gwastraff canolradd neu lefel uchel sy'n cynnwys plwtoniwm, *wraniwm a gyfoethogwyd yn helaeth*, neu *wraniwm-233*.

ac eithrio *gweithgareddau* sy'n ymwneud ag ymchwil wyddonol ddamcaniaethol neu sylfaenol, datblygiadau sy'n cymhwyso radioisotopau diwydiannol, cymwysiadau meddygol, hydrolegol neu amaethyddol, effeithiau iechydol ac amgylcheddol a gwelliannau cynnal a chadw.”

“Golyga *deunydd niwclear* unrhyw ffynhonnell neu ddeunydd ymholliadwy arbennig fel y diffinnir ef yn Erthygl XX y Ddeddf. Ni ddylai'r term deunydd ffynhonnell gael ei ddehongli fel mwyn neu waddod mwyn. Dim ond ar ôl iddo gael ei dderbyn gan y Deyrnas Unedig a'r Gymuned y bydd unrhyw newidiadau gan y Bwrdd yn dilyn Erthygl XX o'r ddeddf ar ôl i'r Protocol yma ddod i rym sy'n ychwanegu at y rhestr o ddeunydd sy'n cael eu cyfrif yn ddeunydd ffynhonnell neu ddeunydd ymholli arbennig yn y Protocol.

“Golyga *wraniwm a gyfoethogwyd yn helaeth* wraniwm sy'n cynnwys 20 y cant neu fwy o'r isotop wraniwm-235.”

Pwrpas a defnydd yr wybodaeth gan yr IAEA

Bydd yr wybodaeth a ddarperir o dan Erthygl 2.a(i), ynghyd â'r wybodaeth a ddarparwyd o dan Erthygl 2.b sy'n cynnwys gweithgareddau penodol yn y “sector breifat” sy'n ymchwilio a datblygu ym maes cylchred tanwydd niwclear yn rhoi darlun mor llawn â phosibl i'r IAEA o'r gweithgareddau ymchwil a datblygu sy'n cael eu cynnal mewn cydweithrediad â, neu sy'n berthnasol fel arall i, NNWS.

Bwriad gwerthusiad o'r wybodaeth hon, ynghyd â rhannau eraill o ddatganiad y DU (e.e. o dan Erthygl 2.a(iii) o'r Protocol Ychwanegol) a gwybodaeth a ddarperir gan yr NNWS yn y Protocol sy'n ychwanegol i'r cytundebau amddiffyniadau, yw ceisio rhoi y rhybudd cynharaf posibl i'r IAEA o'r posibilrwydd o fodolaeth gweithgareddau a deunydd niwclear sydd heb datgan mewn NNWS.

FFORMAT AR GYFER DATGANIADAU YN DILYN ERTHYGL 2.a.(i) (DATGANIAD DECHREUOL GYDA CHOFNODION ENGHREIFFTIOL FFUG)

Enw'r Wladwriaeth (neu Blaid): Y Deyrnas Unedig
Cytundeb Mesurau Diogelwch: INFCIRC/263
Rhif Datganiad: 1 (*DTI i'w gwblhau*)
Cyfnod Datgan: o'r 1999-12-31

Erthygl Protocol: 2.a.(i)
Dyddiad y Datganiad: *DTI i'w gwblhau*

Cofnod	Cyf	Pwynt yn y gylchred danwydd	Lleoliad	Disgrifiad Cyffredinol
1		Cyfoethogi deunydd niwclear	Asiantaeth Prosiectau Blaengar, 23 Main Avenue, R-1384 Pointsmore, Lloegr, DU	RAPA Gwahanu Isotopau – Cam I Rhif prosiect RA-98-16. Wedi ei gyllido'n breifat ond yn digwydd yn RAPA, labordy sy'n perthyn i'r llywodraeth. Mewn cydweithrediad â NZF, Plumtree, Atika. Astudiaeth o addasrwydd proses a ddatblygwyd gan Brifysgol Rutland er mwyn gwahanu isotopau sefydlog trwy ddefnyddio dull laser molecwlâr ac addasrwydd y broses hon ar gyfer cyfoethogi wraniwm. Amcanion Cam I yw: (1) cynnal astudiaeth dichonadwy a fyddai'n darganfod addasrwydd dau system laser masnachol. (2) amcanu cost cyfoethogi; a (3) paratoi cynllun ar gyfer offer prawf ar raddfa labordy. Mae gwaith wedi cychwyn ar amcan (1), ac wedi ei amserlennu i'w gwblhau erbyn diwedd 2001. Defnyddir mesurau gram o wraniwm naturiol. Bydd angen mynediad rheoledig ar gyfer y lleoliad hwn.
2		Prosesu Gwastraff	Ysgol Beirianneg Prifysgol Rutland, McGrath, 401 Macron Drive, R-2257 Dembigh, Welas, DU	Effaith tynnu actinidau (yn cynnwys U a PU) ar gyfer dylunio mwyndoddwr ar gyfer gwydroli HAW. Rhif prosiect RU-98-9. Wedi ei awdurdodi gan y llywodraeth. Mewn cydweithrediad â SZQ, 23 East Street, Smirna, Pangea. Yr amcanion: (1) darganfod cyfluniad allyriad ar gyfer cynnyrch unffurf pan yn defnyddio dull allyrru newidiol a chydamserol; (2) penderfynu ar y paramedrau gorau pan fo rhai actinidau'n bresennol neu yn absennol; a (3) cynllunio a phrofi mwyndoddwr gwydr cynhwysedd uchel allyriant dwbl graddfa-arddangos. Mae gwaith ar amcan (1) bron a'i orffen, disgwylir cwblhad Gorffennaf 2000. Mae gwaith cychwynnol ar amcan (2) wedi dechrau a disgwylir cwblhau diwedd 2000. Bydd yr amserlen ar gyfer amcan (3) yn cael ei benderfynu ar ôl cwblhau amcan (2). Defnyddir fesurau is-gram o wraniwm a phlwtoniwm a gyfoethogwyd ychydig.

FFORMAT AR GYFER DATGANIADAU YN DILYN ERTHYGL 2.a.(i) (Y DATGANIAD DIWEDDARU BLYNYDDOL CYNTAF GYDA CHOFNODION FFUG)

Enw'r Wladwriaeth (neu Blaid): Y Deyrnas Unedig
Cytundeb Mesurau Diogelwch: INFCIRC/263
Rhif Datganiad: 10 (*DTI i'w gwblhau*)
Cyfnod Datgan: 2000-01-01 hyd at 2000-12-31

Erthygl Protocol: 2.a.(i)
Dyddiad y Datganiad: *DTI i'w gwblhau*

Cofnod	Cyf.	Pwynt yn y gylchred danwydd	Lleoliad	Disgrifiad Cyffredinol
1	1-2	Prosesu Gwastraff	Ysgol Beirianeg Prifysgol Rutland, McGrath, 401 Macron Drive, R-2257 Dembigh, Welas, DU	Effaith tynnu actinidau (yn cynnwys U a Pu) ymlaen llaw ar ddylunio mwyndoddwr sy'n gwydroli HAW. Rhif prosiect RU-98-9. Wedi ei awdurdodi gan y llywodraeth. Mewn cydweithrediad â SZQ, 23 East Street, Smirna, Pangea. Yr amcanion: (1) i ddarganfod cyfluniad allyriad ar gyfer cynnyrch unffurf pan yn defnyddio dull allyrru newidiol a chydamserol; (2) penderfynu ar y paramedrau gweithredu gorau pan fo rhai actinidau'n bresennol neu yn absennol; a (3) cynllunio a phrofi mwyndoddwr gwydr cynhwysedd uchel allyriant dwbl graddfa-arddangos. Mae gwaith ar amcan (1) bron a'i gwblhau, disgwylir cwblhad Gorffennaf 2000. Mae gwaith cychwynnol ar amcan (2) wedi dechrau, disgwylir cwblhad diwedd 2000. Bydd yr amserlen ar gyfer amcan (3) yn cael ei benderfynu ar ôl cwblhau amcan (2). Defnyddir mesurau is-gram o wraniwm a phlwtoniwm a gyfoethogwyd ychydig.
2		Gwneuthuriad Tanwydd Niwclear	Ysgol Beirianeg Prifysgol Rutland, McGrath, 401 Macron Drive, R-2257 Dembigh, Welas, DU	Cynllunio a phrofi popty sintro pelenni tanwydd niwclear coil-anwythol. Rhif prosiect RU-99-11. Wedi ei gyllido trwy ymdrech ddatblygu'r llywodraeth. Mewn cydweithrediad â Somens, 166 Auschlandstrasse, Habsburg, Flatland. Yr amcanion: (1) dylunio popty sy'n cyd-fynd â nifer o ofynion rheoli tymheredd a nodir; a (2) adeiladu, profi ac arddangos popty sy'n defnyddio pelenni tanwydd LEU. Newydd ddechrau mae'r cam dylunio a bwriedir cwblhau'r cam dylunio canol 2001. Golyga hyn ddefnyddio mesurau gram o wraniwm a gyfoethogwyd ychydig.

Eglurhad o Erthygl 2.a.(i)

1. Dim ond gwaith Ymchwil a Datblygu sy'n cael ei gyllido, ei awdurdodi neu ei reoli ar ran y Llywodraeth ac sydd ar gyfer, neu mewn cydweithrediad â neu'n berthnasol i NNWS ddylai gael ei gofnodi. Dylid nodi fod gwaith sydd wedi ei gyllido gan UKAEA, BNFL, Urenco neu'r Comisiwn Ewropeaidd (e.e. fel rhan o Fframwaith Rhaglenni Euratom) yn cael ei gyfrif yn waith sy'n cael ei gyllido neu ei reoli gan y llywodraeth.
2. Bydd yr wybodaeth sydd ei angen yn y pennawd a'r golofn 'Cyf' yn cael ei gwblhau gan UKSO. Mae canllawiau ar gyfer y golofn 'Cofnod' i'w gael yn yr adran ARWEINIAD CYFFREDINOL.
3. Ar gyfer pob cofnod dylai'r golofn 'pwynt yn y cylchred danwydd' gynnwys y maes ymchwil a datblygu a restrir yn Erthygl 18.a o'r Protocol Ychwanegol (e.e. cyfnewid, cyfoethogi ayyb.) Gall rhai prosiectau fod yn berthnasol i fwy nag un pwynt yn y gylchred danwydd. Mewn sefyllfaoedd o'r fath dylai pob pwynt perthnasol yn y cylchred danwydd gael ei gofnodi yn y golofn 'cam yn y gylchred danwydd' ar gyfer y cofnod hwnnw. Pan fo prosiectau yn golygu fod gweithgareddau yn digwydd mewn mwy nag un lleoliad, dylai hyn gael ei adlewyrchu trwy gofnod ar wahân.
4. Dim ond gweithgareddau ymchwil a datblygu sy'n berthnasol i agwedd ar ddatblygiad proses neu system o fewn y saith pwynt yn y gylchred danwydd sydd angen eu cofnodi, fel noda Erthygl 18.a y Protocol Ychwanegol. Er enghraifft, ble mae perthynas â NNWS, rhaid cofnodi'r mathau canlynol o weithgareddau:
 - unrhyw weithgareddau ymchwil a datblygu sy'n defnyddio deunydd niwclear neu ddeunydd sy'n dynwared deunydd niwclear (ble y defnyddia'r ymchwil a datblygu ddeunydd niwclear dylid nodi hynny'n glir yn y Disgrifiad Cyffredinol);
 - unrhyw weithgareddau sy'n golygu defnyddio eitemau cyflawn o offer a restrir yn Atodiad II y Protocol;
 - gweithgareddau ymchwil a datblygu trwy fodelu cyfrifiadurol sy'n berthnasol i'r prosesau a'r systemau a ddiffinnir yn Erthygl 18.a o'r Protocol; a
 - ymchwil cymwysedig perthnasol i ddatblygu proses lle mai cymhwysiad niwclear yw'r nod terfynol (enghreifftiau lle mai cymhwysiad niwclear yw'r nod terfynol yw nodweddion dylunio sy'n gysylltiedig â rheoli critigolrwydd a chynhyrchu cydrannau o ddeunyddiau sy'n gallu gwrthsefyll UF6).

Nid oes rhaid cofnodi gweithgareddau sy'n ymwneud ag ymchwil wyddonol ddamcaniaethol neu sylfaenol, datblygiadau sy'n cymhwyso radioisotopau diwydiannol, cymwysiadau meddygol, hydrolegol neu amaethyddol,

effeithiau iechydol ac amgylcheddol. Er enghraifft, ni fyddai angen cofnodi ymchwil a datblygu'r defnydd o radioisotopau fel traswyr ar gyfer gwella diagnosis meddygol. Yn yr un ffordd ni fyddai angen cofnodi ymchwil a datblygu mesuriadau niwtronau actif mewn deunydd sydd ddim yn niwclear neu waith ar ddatblygu gweithdrefnau iechyd ffiseg ar gyfer adweithyddion niwclear. Fodd bynnag, rhaid cofnodi unrhyw waith sy'n gysylltiedig â diogelwch. Mae cofnodi trin gwastraff wedi ei gyfyngu i wastraff canolradd neu uchel (ILW/HLW) sy'n cynnwys plwtoniwm, wraniwm a gyfoethogwyd yn helaeth neu wraniwm-233. Nid oes angen cofnodi ymchwil a datblygu ym maes ailbacio a chyflyru gwastraff, cyn belled na wahenir yr elfennau.

Os oes amheuaeth ynglŷn â'r angen i gofnodi prosiect arbennig dylid cysylltu â'r UKSO am arweiniad.

5. Dylai'r golofn 'Lleoliad' gynnwys enw a chyfeiriad y corff lle mae'r ymchwil yn cymryd lle. Mae'r wybodaeth hon yn hanfodol hyd yn oed os yw enw a chyfeiriad y rhiant-gorff wedi ei nodi'n barod. Dylai'r cyfeiriad fod yn ddigon manwl fel bod yr IAEA yn gallu darganfod y berthynas ddaearyddol â lleoliadau eraill a nodwyd yn y datganiad hwn neu yn natganiadau eraill y DU. Lle mae mynediad yn angenrheidiol dylai'r IAEA fod â'r gallu i hysbysu'r angen am fynediad heb unrhyw amwyster mewn perthynas â lleoliad. Lle bo unrhyw amheuaeth ynglŷn â'r lleoliad, dylid darparu cyfesurynnau fel bod yr IAEA yn gallu lleoli'r gweithgaredd ar fap topograffig manwl. Os yw'r gweithgaredd wedi ei leoli mewn cyfleuster niwclear, dylid nodi rhif yr adeilad ble mae'r gweithgaredd yn digwydd yn y golofn "Lleoliad".
6. Yn gyffredinol bydd y datganiadau diweddarau sy'n dilyn Erthygl 2.a.(i) yn adroddiadau statws sy'n cofnodi'r gwaith a wnaethpwyd dros gyfnod o amser (e.e. statws y gwaith ar ddiwedd y flwyddyn galendr yn dilyn gweithgareddau a gymerodd le dros y flwyddyn honno). Dylid cofnodi prosiectau a gofnodwyd eisoes sydd efallai wedi dod i ben yn ystod y flwyddyn fel prosiectau sydd wedi terfynu er na fyddai'r prosiect yn bodoli ar ddiwedd y cyfnod datgan. Yn y datganiad diweddarau enghreifftiol ar gyfer Erthygl 2.a.(i) nid oes sôn am gofnod 1 yn natganiad 1 (h.y. Cyf 1-1) gan nad oes newid yn y cofnod.
7. Ar gyfer pob gweithgaredd ymchwil a datblygu dylid cynnwys y canlynol yn y golofn "Disgrifiad Cyffredinol" (yn y drefn hon):
 - a. teitl y gweithgaredd ymchwil a datblygu;
 - b. rhif prosiect y gweithgaredd neu unrhyw gôd unigryw er mwyn osgoi unrhyw amwyster ynglŷn â chyfeiriadau i'r gweithgaredd yn y dyfodol;
 - c. perthynas neu gysylltiad yr ymchwil a datblygu gyda'r Wladwriaeth e.e. 'cyllidwyd gan';
 - d. enwi unrhyw gorff neu leoliad o fewn NNWS lle y ceir cydweithio ar weithgaredd ymchwil a datblygu;

- e. amlinelliad byr o'r gwaith sy'n digwydd e.e. datblygu techneg sy'n defnyddio niwtronau actif i fesur plwtoniwm mewn caniau o wastraff lefel uchel sydd wedi ei wydrolu;
 - f. amcanion y gweithgaredd ymchwil a datblygu, a'r hyn sydd wedi ei gyflawni ar amser y datganiad (e.e. a yw'r gwaith wedi dechrau, ar ei ganol neu wedi ei gwblhau);
 - g. cymhwysiad niwclear terfynol canlyniad yr ymchwil a datblygu (os nad yw hyn yn amlwg o'r amcanion);
 - h. yr amserlen ar gyfer y prosiect, gan gynnwys dyddiad cwblhau; a
 - i. datganiad sy'n nodi os yw'r ymchwil a datblygu yn defnyddio deunydd niwclear, h.y. un ai 'defnyddir deunydd niwclear' neu 'ni ddefnyddir deunydd niwclear'. Os defnyddir deunydd niwclear, dylid rhoi syniad bras o'r maint a'r math o ddeunydd a ddefnyddir (e.e. Defnyddir mesurau gram o wraniwm naturiol.)
8. Yn ogystal, dylid hysbysu'r IAEA drwy UKSO cyn gynted â phosibl am y lleoedd (os oes rhai) ar safleoedd niwclear neu mewn lleoliadau eraill lle y gallai mynediad rheoledig (yn dilyn Erthygl 7.b o'r Protocol Ychwanegol) fod yn berthnasol. Dylid cynnwys yr wybodaeth hon yn y golofn "Disgrifiad Cyffredinol" ar gyfer pob gweithgaredd ymchwil a datblygu (e.e. gan ddefnyddio'r frawddeg 'Bydd angen mynediad rheoledig ar gyfer y lleoliad hwn'.

III.2 Erthygl 2.a.(iii)

Noda'r Protocol Ychwanegol:-

“Bydd y Deyrnas Unedig yn cyflwyno datganiad i'r IAEA sy'n cynnwys:

(iii) Disgrifiad o raddfa'r gweithgareddau ymhob lleoliad ble mae cysylltiad â gweithgareddau cylchred tanwydd mewn NNWS, sydd wedi eu nodi yn Atodiad I o'r Protocol hwn.”

Dyma'r gweithgareddau a nodir yn Atodiad I:

- i) gweithgynhyrchu tiwbiau rotor allgyrchu neu gydosod allgyrchyddion nwy;
- ii) gweithgynhyrchu rhwystryddion trylediad;
- iii) gweithgynhyrchu neu gydosod systemau laser;
- iv) gweithgynhyrchu neu gydosod gwahanwyr isotop electromagnetig;
- v) gweithgynhyrchu neu gydosod colofnau neu offer echdynnu;
- vi) gweithgynhyrchu neu gydosod ffroenellau gwahanu erodynemig neu diwbiau fortecs;
- vii) gweithgynhyrchu neu gydosod systemau cynhyrchu plasma wraniwm;
- viii) gweithgynhyrchu tiwbiau sirconiwm;
- ix) gweithgynhyrchu neu ddiweddarau dŵr trwm neu dewteriwm;
- x) gweithgynhyrchu graffit safon niwclear;
- xi) gweithgynhyrchu fflasgiau at ddefnydd arbelydru tanwydd;
- xii) gweithgynhyrchu rodenni rheoli adweithyddion;
- xiii) gweithgynhyrchu tanciau neu ddysglau sy'n sefydlog o safbwynt critigoldeb;
- xiv) gweithgynhyrchu peiriannau torri elfennau tanwydd sydd wedi eu arbelydru; a
- xv) chynhyrchu celloedd poeth.

Pwrpas a Defnydd yr wybodaeth gan yr IAEA

Pwrpas y ddarpariaeth hon yw casglu gwybodaeth digonol er mwyn darparu sylfaen sy'n sicrhau fod gweithgareddau'r DU sydd mewn cysylltiad â NNWS yn y meysydd cyfyng ond hollbwysig hyn a nodir yn Atodiad I yn gyson â'r datganiad gan y NNWS. Sicrha hefyd fod gallu'r NNWS i gynhyrchu deunydd a ellir ei ddefnyddio mewn arfau niwclear yn cael ei ddefnyddio yn unig er mwyn cynnal y rhaglen sydd yn y datganiad.

Bydd yr wybodaeth ar sgôp a graddfa'r gweithgareddau hyn sy'n gysylltiedig â NNWS, ynghyd â'r wybodaeth ar allforio a mewnfario offer a deunydd an-niwclear yn dilyn Erthygl 2.a.(viii) yn cael ei gymharu er mwyn sicrhau cysondeb gyda rhaglenni niwclear y NNWS a gofnodwyd. Gall hyn awgrymu lle y gallai isadeiledd sydd â'r gallu i gynnal gweithgareddau niwclear fodoli nad yw'n rhan o raglen

niwclear a gofnodwyd gan y NNWS. Er mwyn cefnogi'r rhaglen a nodwyd yn y datganiad yn unig y dylid cynhyrchu a chydodod yr offer a deunydd an-niwclear.

Galluoga Erthygl 16.b o'r Protocol Ychwanegol i Atodiad I a Atodiad II gael eu diwygio. Gallai diwygiadau godi o ganlyniad i ddatblygiadau technolegol neu brofiad gyda "model ffisegol" yr IAEA o'r gylchred danwydd niwclear y seiliwyd Atodiad I arno. Mae'r model ffisegol hwn yn brif gydran yng ngallu'r IAEA i wella'i ddadansoddiad o wybodaeth ac mae'n disgrifio pob gweithgaredd niwclear a allai fod ynghlwm â'r gylchred danwydd niwclear o sicrhau'r deunydd ffynhonnell hyd cynhyrchu deunydd niwclear a ellid ei ddefnyddio mewn arfau niwclear.

FFORMAT AR GYFER DATGANIADAU YN DILYN ERTHYGL 2.a.(iii) (DIWEDDARIAD O DDATGANIAD DECHREUOL GYDA CHOFNODION ENGHREIFFTIOL FFUG)

Enw'r Wladwriaeth (neu Blaid): Y Deyrnas Unedig

Cytundeb Mesurau Diogelwch: INFCIRC/263

Rhif Datganiad: *DTI i'w gwblhau*

Cyfnod Datgan: 2000-01-01 hyd nes 2000-12-31

Erthygl Protocol: 2.a.(iii)

Dyddiad y Datganiad: *DTI i'w gwblhau*

Cofnod	Cyf	Eitem Atodiad 1	Lleoliad	Disgrifiad o Raddfa'r Gweithgareddau
1		(iii)	Central Laser Systems plc, 27 Main Ave., R-1385, Pointsmore, Nivana, DU	Gweithgynhyrchu, ar ran NZF, Plumtree, Atika: Systemau anweddu U (hyd at 10kW/cm ²); casglwyr tantwlwm ar gyfer cynnyrch U a'i godre; amgaeadau ar gyfer y gwahanwyr a chydosiadau o'r rhain, yn ogystal â systemau trin hylif U a fewnforiwyd, anwedd copr a sefydlogwyd trwy amledd a laserau lliwio fel rhan o systemau laser cyfan. Gweithgynhyrchir nifer o systemau sydd â'r gallu i gynhyrchu cwpl o gannoedd o SWU/blwyddyn yn ystod y cyfnod datgan. Bydd angen mynediad rheoledig ar gyfer un o gamau gweithgynhyrchu'r systemau anweddu U.
2		(ix)	Deuterium Ltd., 2 Wood Road, R-4227, Gironte, Sherland, DU	Cynhyrchu dŵr trwm ar gyfer Northern Nuclear Supplies, 34 Rue Belle, Perga, Ephesus. Cynhyrchwyd cwpl o gannoedd o dunelli yn ystod y flwyddyn. Defnyddiwyd y dŵr trwm yn bennaf ar gyfer defnydd niwclear.
3		(x)	Speciality Metals Co., 11 Shermann Street, R-7811, Speyar, Saxonbrook, DU	Cynhyrchu graffit safon niwclear ar gyfer Somens, 166 Auschlandstrasse, Habsburg, Flatland a SZQ, 23 East Street, Smirna, Pangea. Cynhyrchwyd <500 tunnell ar gyfer Flatland a <200 tunnell ar gyfer Pangea. Yn Flatland, defnyddiwyd yr rhan fwyaf o'r deunydd fel deunydd niwclear gyda tua 10 tunnell yn mynd i defnydd arall.

Eglurhad o Erthygl 2.a.(iii)

1. Dim ond gweithgareddau Atodiad I sy'n gysylltiedig â NNWS ddylai gael eu cofnodi. Os oes amheuaeth ynglŷn â chofnodi gweithgaredd dylid cysylltu â'r UKSO am arweiniad.
2. Bydd yr wybodaeth sydd ei angen yn y pennawd a'r golofn 'Cyf' yn cael ei gwblhau gan UKSO. Mae canllawiau ar gyfer y golofn 'Cofnod' i'w gael yn yr adran ARWEINIAD CYFFREDINOL.
3. Dylai fod cofnod ar wahân ar gyfer pob lleoliad a phob gweithgaredd a restrir yn Atodiad I. Dylai'r golofn "Eitem Atodiad I" gyfeirio at y gweithgaredd perthnasol yn y Protocol (h.y. (i) i (xv) fel y bo'n briodol).
4. Dylai'r golofn 'Lleoliad' gynnwys enw a chyfeiriad y corff lle mae'r ymchwil yn digwydd. Mae'r wybodaeth hon yn hanfodol hyd yn oed os yw enw a chyfeiriad y rhiant-gorff wedi ei nodi'n barod. Dylai'r cyfeiriad fod yn ddigon manwl fel bod yr IAEA yn gallu darganfod y berthynas ddaearyddol â lleoliadau eraill a nodwyd yn y datganiad hwn neu yn natganiadau eraill y DU. Lle mae mynediad yn angenrheidiol dylai'r IAEA fod â'r gallu i hysbysu'r angen am fynediad heb unrhyw amwyster mewn perthynas â lleoliad. Lle bo unrhyw amheuaeth ynglŷn â'r lleoliad, dylid darparu cyfesurynnau fel bod yr IAEA yn gallu lleoli'r gweithgaredd ar fap topograffig manwl. Os yw'r gweithgaredd wedi ei leoli mewn cyfleuster niwclear, dylid nodi rhif yr adeilad ble mae'r gweithgaredd yn digwydd yn y golofn "Lleoliad".
5. Dylai colofn "Disgrifiad o Raddfa'r Gweithgareddau" ar gyfer pob lleoliad gynnwys:
 - a. disgrifiad byr o'r gweithgaredd a'r cynnyrch a fydd yn galluogi'r IAEA i ddarganfod y berthynas â chylchred tanwydd niwclear yr NNWS a'r rhaglen;
 - b. enw unrhyw gorff a lleoliad o fewn NNWS sy'n gysylltiedig â'r gweithgaredd;
 - c. arwydd o raddfa gweithredu pob un o'r gweithgareddau cyfredol a restrir yn Atodiad I; a
 - d. y manau hynny, os oes rhai, o fewn lleoliadau lle y gallai mynediad rheoledig fod yn berthnasol. Rhaid nodi'r angen am fynediad rheoledig yn y datganiad perthnasol. Dylai manylion ynglŷn â'r cynigion ar gyfer mynediad rheoledig gael eu trosglwyddo i'r UKSO cyn gynted â phosibl, neu os nad yw hyn yn bosibl, yn ystod y cyfnod ymgynghori cyn i'r IAEA gael mynediad.

III.3 Erthygl 2.a.(vii)

Noda'r Protocol Ychwanegol:-

“Bydd y Deyrnas Unedig a'r Gymuned yn cyflwyno datganiad i'r IAEA sy'n cynnwys:

(vii) gwybodaeth ynglŷn â lleoliad neu brosesu pellach o wastraff canolradd neu lefel uchel sy'n cynnwys plwtoniwm, *wraniwm a gyfoethogwyd yn helaeth* neu wraniwm-233, sydd wedi ei fewnforio neu sydd ar fin cael ei allforio i NNWS y tu allan i'r Gymuned. Deunyddiau yw'r rhain ble mae'r mesurau diogelwch wedi eu terfynu yn dilyn Erthygl 11 o'r Cytundeb Mesurau Diogelwch. I bwrpas y paragraff hwn, nid yw “prosesu pellach” yn cynnwys ailbacio neu gyflyru pellach ar gyfer storio neu waredu, lle nad yw'r elfennau yn cael eu gwahanu.”

(Noder: Mynega Atodiad III y Protocol Ychwanegol “y dylai'r Gymuned a'r Deyrnas Unedig ddarparu gwybodaeth i'r IAEA parthed trosglwyddo gwastraff canolradd neu lefel uchel i mewn neu allan o NNWS sy'n aelod o'r Gymuned. Dylai'r wybodaeth hon gyfateb i'r wybodaeth a ddarparwyd yn dilyn Erthygl 2.a.(vii).” Golyga hyn y dylid cofnodi pob trosglwyddiad i mewn ac allan o NNWS (os yw'r NNWS yn rhan o'r EU neu beidio).)

Bydd yr wybodaeth angenrheidiol yn dilyn yr erthygl hwn yn cael ei ddarparu i'r IAEA ar y cyd gan UKSO ac Euratom.

Pwrpas defnydd yr wybodaeth gan yr IAEA

Pwrpas yr wybodaeth a ddarperir yn dilyn yr is-erthygl hwn yw cyflenwi'r wybodaeth a ddarparwyd eisoes gan y NNWS trwy adroddiadau cyfrifo yn dilyn paragraffau 59-65 a 67 o'r INFCIRC/153. Galluoga hyn i'r IAEA ffurfio darlun cyflawn (cyn belled a'i fod yn ymarferol) o'r holl ddeunyddiau niwclear o fewn yr NNWS sy'n berthnasol i weithgareddau niwclear cyfredol neu posibl o fewn yr NNWS. Defnyddir yr wybodaeth i gadarnhau fod y swm o'r deunydd niwclear sy'n bresennol yn gyson â rhaglen niwclear y NNWS a ddatganwyd.

Er bod disgwyl i'r swm o ddeunydd niwclear a gofnodir yn dilyn yr is-erthygl hwn fod yn swm cymharol fychan, mae'n holl bwysig gan ei fod yn delio â plwtoniwm, wraniwm a gyfoethogwyd yn helaeth ac wraniwm-233.

Amserlen ar gyfer cyflwyno datganiadau

1. Yn unol ag Erthygl 3.e o'r Protocol Ychwanegol, dylid anfon gwybodaeth i'r IAEA ynglŷn â chynlluniau prosesu pellach o wastraff fel a nodir yn Erthygl 2.a.(vii) ddim hwyrach na 180 diwrnod **cyn** i'r prosesu gymeryd lle. Ymhellach, bwriad yr UKSO yw mynd ymhellach na gofynion y Protocol Ychwanegol. Fel cynllun ar wahân ei bwriad yw mynd i'r arfer o ddarparu

gwybodaeth i'r IAEA ynglŷn ag allforion o ILW/HLW i NNWS cyn iddynt gymeryd lle. Dylid cysylltu â'r UKSO os rhagwelir y bydd allforion o'r fath yn y dyfodol agos. Y bwriad yw hysbysu'r IAEA o leiaf 180 diwrnod cyn i'r deunydd gael ei allforio. Er mwyn galluogi'r UKSO i gadw at yr amserlen hon, dylid darparu gwybodaeth ynglŷn â phrosesu neu allforion o'r fath cyn gynted a phosibl ac o leiaf 210 diwrnod **cyn** y dyddiad allforio/prosesu penodedig. Dylai datganiad sy'n dilyn Erthygl 2.a.(vii) Rhan (b) gael ei gwblhau ar gyfer pob llwyth o allforion a phrosesu pellach a fwriedir (gweler yr enghreifftiau isod).

2. Dylid darparu gwybodaeth ynglŷn â newidiadau mewn lleoliad gwastraff yn ystod y flwyddyn yn y datganiad blynyddol.

FFORMAT AR GYFER DATGANIADAU YN DILYN ERTHYGL 2.a.(vii) (DATGANIAD DIWEDDARU GYDA CHOFNODION ENGHREIFFTIOL FFUG)

(Yn Erthygl 2.a.(vii) mae gofyn am ddau fath o ddatganiad, ac felly dau fformat datgan, dylid eu galw'n Rhan (a) a (b). Dylai'r ddau ran fod a'r un pennawd, ac os cyflwynir hwy ar yr un pryd, yr un Rhif Datganiad.)

Enw'r Wladwriaeth (neu Blaid): Y Deyrnas Unedig

Cytundeb Mesurau Diogelwch: INFCIRC/263

Rhif Datganiad: DTI i'w gwblhau

Cyfnod Datgan*: 2000-01-01 hyd nes 2000-12-31

Erthygl Protocol: 2.a.(vii)

Dyddiad y Datganiad: DTI i'w gwblhau

Tudalen 1 o 2 Dudalen

Rhan (a) – Newidiadau mewn lleoliad

Rhan (a) – Newidiadau mewn lleoliad					Swm				
Cofnod	Cyf	Ffurf y Gwastraff cyn Cyflyru	Ffurf yn dilyn Cyflyru	Nifer o Eitemau	Pu	HEU	U-233	Lleoliad Gwreiddiol	Lleoliad Newydd
1	17-1	Hylif actif iawn (cynnyrch prosesu tanwydd yn SZQ)	gwydr	150 drwm	1 kg			QVD facility Building RR-14	SZQ storage facility, Aomori City, Pangea. Gadawodd y gwastraff y DU ar fwrdd y Argoserentatit 2000-06-24 gan gyrraedd yn Pangea ar y 2000-07-31.
2		hulls (mewnforiwyd o: SZQ, 23 East Street, Smirna, Pangea)	Blociau sment	15 bloc	540g	800g		QVD facility Building RR-16	United Kingdom Waste Storage Facility, 700 Highway 13, Far Away, Nivana, DU

*yn berthnasol i newid mewn lleoliadau sef Rhan (a) yn unig.

Rhan (b) – Hysbysiad o Brosesu Pellach					Swm						
Cofnod	Cyf	Ffurf y Gwastraff cyn Cyflyru	Ffurf yn dilyn Cyflyru	Nifer o Eitemau	Pu	HEU	U-233	Lleoliad	Lleoliad Prosesu	Dyddiad Prosesu	Pwrpas Prosesu
3		Hylif actif iawn (cynnyrch prosesu tanwydd yn SZQ,23 East Street, Smirna, Pangea)	gwydr	46 drwm	920g			QVD facility, Bldg. RR-11	QVD facility, Bldg. RR-12	2002-06-02 hyd nes 2002-12-31	Adfer Pu

FFORMAT AR GYFER DATGANIADAU YN DILYN ERTHYGL 2.a.(vii) (RHAG HYSBYSIAD O ALLFRORIO ILW/HLW I NNWS GYDA CHOFNODION ENGHREIFFRTIOL FFUG)

Enw'r Wladwriaeth (neu Blaid): Y Deyrnas Unedig
Cytundeb Mesurau Diogelwch: INFCIRC/263
Rhif Datganiad: DTI i'w gwblhau
Cyfnod Datgan: o'r 2000-03-01

Erthygl Protocol: 2.a.(vii)
Dyddiad y Datganiad: DTI i'w gwblhau

Rhan (b) – Rhaghysbysiad o allforion ILW/HLW					Swm						
Cofnod	Cyf	Ffurf y Gwastraff cyn ei gyflyru	Ffurf yn dilyn Cyflyru	Nifer o eitemau	Pu	HEU	U-233	Lleoliad Presennol	Cyrchfan Terfynol Allforion	Dyddiad Symud	Pwrpas
1		Hylif actif iawn (cynnyrch prosesu tanwydd yn SZQ,23 East Street, Smirna, Pangea)	gwydr	200 drwm	1.5kg			QVD facility, Bldg. RR-11	SZQ, 23 East Street, Smyrna, Pangea	2001-12-31 (tebygol)	Dychwel yd HLW i Pangea

Eglurhad o Erthygl 2.a.(vii)

1. Dim ond gwybodaeth ynglŷn â lleoliad neu brosesu pellach o wastraff sydd wedi ei fewnforio neu sydd ar fin cael ei allforio i NNWS a ddylai gael ei gofnodi (os yw'r NNWS yn aelod o'r Gymuned Ewropeaidd neu beidio). Os oes amheuaeth ynglŷn â'r angen i gofnodi gweithgaredd arbennig dylid cysylltu â'r UKSO am arweiniad.
2. Bydd yr wybodaeth sydd ei angen yn y pennawd a'r golofn 'Cyf' yn cael ei gwblhau gan UKSO. Mae canllawiau ar gyfer y golofn 'Cofnod' i'w cael yn yr adran ARWEINIAD CYFFREDINOL.
3. Mae Rhan (a) yn adroddiad blynyddol sy'n datgan unrhyw newidiadau mewn lleoliad gwastraff yn ystod y flwyddyn galendr flaenorol sy'n ofynnol yn ôl Erthygl 2.a.(vii). Dylid cwblhau cofnod newydd ar gyfer pob newid mewn lleoliad yn ystod y flwyddyn honno.
4. Yr unig ddefnydd ar gyfer Rhan (b) o'r datganiad yw rhaghysbysiad o unrhyw brosesu pellach o wastraff. Dylid hysbysu'r IAEA drwy'r UKSO ynglŷn ag unrhyw newidiadau dilynol mewn lleoliad neu ddyddiadau prosesu. Yn Rhan (b) dylid cwblhau cofnod newydd ar gyfer pob cyfnod o brosesu pellach ag eithrio "ailbacio neu gyflyru pellach ar gyfer storio neu waredu lle na wahenir yr elfennau."
5. Fel y nodwyd eisoes, bwriad yr UKSO yw hysbysu'r IAEA parthed allforion o wastraff canolradd a lefel uchel i NNWS (e.e. Siapan) o leiaf 180 diwrnod **cyn** i'r llwyth gael ei symud. Golyga hyn gwblhau adroddiad yn dilyn 2.a.(vii).rhan (b), gweler enghraifft isod. Cysyllter a UKSO cyn gynted a phosibl ac o leiaf 210 diwrnod **cyn** dyddiad allforio disgwylidig ynglŷn ag allforion o'r fath.
6. Yn y golofn "Ffurf y Gwastraff cyn Cyflyru" dylid nodi ffurf y gwastraff cyn cyflyru e.e. 'hulls', slwj bwydo tryloyw, hylif actif iawn, hylif actif canolradd, yn ogystal ag enw a chyfeiriad y cwmni yn yr NNWS sy'n berthnasol i'r cofnod.
7. Dylid nodi yn y golofn "Ffurf yn dilyn cyflyru" gyflwr presennol y gwastraff e.e. gwydr, ceramig, sment neu bitumen.
8. Dylid nodi yn y golofn "Nifer o eitemau" y nifer o eitemau e.e. caniau gwydr neu flociau sment a ddefnyddir ystod y cyfnod prosesu neu nifer yr eitemau a symudwyd yn ystod y flwyddyn o'r lleoliad ("blaenorol") i'r un lleoliad newydd.
9. Dylid nodi yn y golofn "Swm" cyfanswm y gramau o blwtoniwm, wraniwm a gyfoethogwyd yn helaeth neu wraniwm-233 sy'n bresennol ymhob eitem yn y golofn "Nifer o Eitemau". Gall y data yn y golofn "Swm" gael ei seilio ar ddata a ddefnyddiwyd yn y datganiadau newid mewn stoc ar ôl terfyn y

mesurau diogelwch, e.e. swm cyfartalog o ddeunydd niwclear ymhob eitem. Nid oes angen mesur pob eitem yn unigol.

10. Yn Rhan (a), dylid nodi lleoliad y gwastraff cyn y newid mewn lleoliad yn y golofn “Lleoliad Blaenorol” a lleoliad y gwastraff ar ôl y symud yn y golofn “Lleoliad Newydd”.
11. Yn Rhan (b), dylid nodi lleoliad y gwastraff pan wneir y datganiad yn y golofn “Lleoliad” a’r lleoliad y bwriedir prosesu yn y golofn “Lleoliad Prosesu”.
12. Dylai'r colofnau “lleoliad” gynnwys enw'r corff a chyfeiriad y lleoliad lle y cedwir y gwastraff (neu'r lleoliad blaenorol neu'r lleoliad prosesu/cadw). Dylai'r cyfeiriad fod yn ddigon manwl fel bod yr IAEA yn gallu darganfod y berthynas ddaearyddol â lleoliadau eraill a nodwyd yn y datganiad hwn neu yn natganiadau eraill y DU. Lle mae mynediad yn angenrheidiol dylai'r IAEA fod â'r gallu i hysbysu'r angen am fynediad heb unrhyw amwystr mewn perthynas â lleoliad. Lle bo unrhyw amheuaeth ynglŷn â'r lleoliad, dylid darparu cyfesurynnau fel bod yr IAEA yn gallu lleoli'r gweithgaredd ar fap topograffig manwl. Os yw'r gweithgaredd wedi ei leoli mewn cyfleuster niwclear, dylid nodi rhif yr adeilad ble mae'r gweithgaredd yn digwydd yn y golofn “Lleoliad”.
13. Yn Rhan (b), dylid nodi'r dyddiadau pryd disgwylir i'r prosesu gychwyn a gorffen yn y golofn “Dyddiad Prosesu”.
14. Yn Rhan (b), yn y golofn “Pwrpas Prosesu” dylid nodi canlyniad disgwylidig y prosesu e.e. echdynnu plwtoniwm neu gwahaniad cynhyrchion ymholltadwy penodedig (noder: bydd angen cofnodi mesurau diogelwch “llawn” pan yn prosesu ar gyfer echdynnu plwtoniwm).

III.4 Erthygl 2.a.(viii) (allforion)

Dylai'r wybodaeth a ddarperir yn dilyn yr erthygl hwn gael ei gywain o wybodaeth sydd ar gael eisoes o fewn y DTI. Fodd bynnag, gall bod angen gwybodaeth ychwanegol gan yr operadwyr ac fe'i ceisir ar wahân. Bydd UKSO yn crynhoi'r datganiad ac yn ei gyflwyno i'r IAEA bob chwarter.

III.5 Erthygl 2.a.(ix) (Cynlluniau cyffredinol a gymeradwywyd gan y Llywodraeth ar gyfer datblygu'r gylchred tanwydd niwclear sifil.)

Bydd yr wybodaeth sy'n dilyn yr Erthygl hon hefyd gael ei gynhyrchu'n fewnol gan y DTI. Fodd bynnag, gall fod angen gwybodaeth ychwanegol gan yr operadwyr.

III.6 Erthygl 2.b

Noda'r Protocol Ychwanegol:-

Bydd y Deyrnas Unedig yn gwneud pob ymdrech resymol i ddarparu disgrifiad cyffredinol yn ogystal â gwybodaeth ynglŷn â lleoliad gweithgareddau ymchwil a datblygu ym *maes cylchrediad tanwydd niwclear* sy'n gysylltiedig yn benodol â

chyfoethogi, ailbroesu tanwydd niwclear neu brosesu gwastraff canolradd a lefel uchel sy'n cynnwys plwtoniwm, *wraniwm a gyfoethogwyd yn helaeth* neu wraniwm-233 ac yn digwydd yn unrhyw le yn y Deyrnas Unedig ond nad ydynt yn cael eu cyllido, eu hawdurdodi na'u rheoli'n benodol, na'u gweithredu ar ran y Deyrnas Unedig, ond yn cael eu cynnal ar gyfer, ar y cyd neu fel arall yn berthnasol i NNWS. I bwrpas y paragraff hwn, nid yw "prosesu" gwastraff canolradd neu lefel uchel yn cynnwys ailbacio neu gyflyru gwastraff ar gyfer storio neu waredu, lle ni wahenir yr elfennau."

Mae'r termau mewn italig wedi eu diffinio yn Erthygl 18 y Protocol Ychwanegol ac wedi eu cynnwys ar dudalennau 9 a 10 uchod.

Pwrpas a'r defnydd o'r wybodaeth gan y IAEA

Bydd yr wybodaeth a ddarperir yn dilyn Erthygl 2.b ynghyd â gwybodaeth yn dilyn Erthygl 2.a.(i) yn rhoi darlun eang i'r IAEA o'r gweithgareddau ymchwil a datblygu sy'n cael eu cynnal ar y cyd, neu sy'n berthnasol i NNWS ac sy'n berthnasol i ddatblygu'r broses o gyfoethogi, ailbroesu a thrin gwastraff.

Bydd gwerthusiad o'r wybodaeth hon ynghyd â rhannau eraill o ddatganiadau'r DU (e.e. Erthygl 2.a.(iii)) a gwybodaeth a ddarperir gan y NNWS drwy'r protocolau sy'n ychwanegol i'w cytundebau mesurau diogelwch, yn rhybuddio'r IAEA mor fuan â phosibl ynglŷn â'r posibilrwydd bod gweithgareddau a deunyddiau niwclear sydd heb eu datgan yn bodoli yn y NNWS.

FFORMAT AR GYFER DATGANIADAU YN DILYN ERTHYGL 2.b (DATGANIAD DECHREUOL GYDA CHOFNODION ENGHREIFFTIOL FFUG)

Enw'r Wladwriaeth (neu Blaid): **Y Deyrnas Unedig**
 Cytundeb Mesurau Diogelwch: **INFCIRC/263**
 Rhif Datganiad: **9 (DTI i'w gwblhau)**
 Cyfnod Datgan: **o'r 1999-12-31**

Erthygl Protocol: **2.b**
 Dyddiad y Datganiad: **DTI i'w gwblhau**

Cofnod	Cyf	Pwynt yn y Gylchred Danwydd	Lleoliad	Disgrifiad Cyffredinol
1		Cyfoethogi deunydd Niwclear	Central Laser Research, Inc., 67 East Drive, R-1398, Pointsmore, Nivana, DU	Datblygu Laser CSR. Rhif Prosiect CSR-267. Mewn cydweithrediad â National Enrichment Corporation, 16 West Avenue, Smirna, Pangea. Datblygu laser newydd gyda'r bwriad o ddarganfod amleddau cynhyrfu gorau ar gyfer gwahanu anwedd isotop wraniwm trwy ddull laser. Mae cyfnod o asesu dichonoldeb y prosiect yn parhau ac wedi ei amserlennu i ddod i ben ddiwedd 2000. Defnyddir mesurau is-gram o wraniwm naturiol. Bydd angen mynediad rheoledig ar gyfer y lleoliad hwn.
2		Prosesu gwastraff	Univ. of Rutland Chemical Engineering Dept., Toth Building, 410 Macron Drive, R-2257 Dembigh, Welas, DU	Astudiaeth o effaith tynnu actinidau cyn gwydroli gwastraff. Rhif Prosiect Ymchwil Eng-58. Noddir gan Western Reactor Products, 44 South Place, R-2287 Centerville, Lloegr. Mewn cydweithrediad â SZQ, 23 East Street, Smirna, Pangea. Dyma'r amcanion: (1) adnabod fformiwlâu amgen ar gyfer gwydr; a (2) profi eu gwrthwynebiad i drwytholchi mewn amgylcheddau daearyddol gwahanol. Cwblhawyd gwaith ar amcan (1) yn mis Hydref 1999. Y targed ar gyfer gorffen amcan (2) yw Mehefin 2000. Nid yw'r gwaith hwn yn golygu defnyddio deunydd niwclear.

FFORMAT AR GYFER DATGANIADAU YN DILYN ERTHYGL 2.b (DATGANIAD DIWEDDARU BLYNYDDOL CYNTAF GYDA CHOFNODION ENGHREIFFTIOL FFUG)

Enw'r Wladwriaeth (neu Blaid): Y Deyrnas Unedig
Cytundeb Mesurau Diogelwch: INFCIRC/263
Rhif Datganiad: 15 (*DTI i'w gwblhau*)
Cyfnod Datgan: 2000-01-01 hyd nes 2000-12-31

Erthygl Protocol: 2.b
Dyddiad y Datganiad: *DTI i'w gwblhau*

Cofnod	Cyf	Pwynt yn y Gylchred Danwydd	Lleoliad	Disgrifiad Cyffredinol
1	9-1	Cyfoethogi deunydd Niwclear	Central Laser Research, Inc., 67 East Drive, R-1398, Pointsmore, Nivana, DU	Datblygu Laser CSR. Rhif Prosiect CSR-267. Mewn cydweithrediad â National Enrichment Corporation, 16 West Avenue, Smirna, Pangea. Datblygu laser newydd gyda'r bwriad o ddarganfod amleddau cynhyrfu gorau ar gyfer gwahanu anwedd isotop wraniwm trwy ddull laser. Daeth cyfnod o asesu dichonoldeb y prosiect i ben yn Nhachwedd 2000. Mae offer yn cael ei casglu ar gyfer cychwyn rhan ymarferol y prosiect. Defnyddir mesurau is-gram o wraniwm naturiol. Bydd angen mynediad rheoledig ar gyfer y lleoliad hwn.
2	9-2	Prosesu gwastraff	Univ. of Rutland Chemical Engineering Dept., Toth Building, 410 Macron Drive, R-2257 Dembigh, Welas, DU	Astudiaeth o effaith tynnu actinidau cyn ffurfio gwydroli gwastraff. Rhif Prosiect Ymchwil Eng-58. Noddir gan Western Reactor Products, 44 South Place, R-2287 Centerville, Lloegr. Mewn cydweithrediad â SZQ, 23 East Street, Smirna, Pangea. Dyma'r amcanion: (1) i adnabod fformiwlâu amgen ar gyfer gwydr; a (2) i brofi eu gwrthwynebiad i drwytholchi mewn amgylcheddau daearyddol gwahanol. Cwblhawyd gwaith ar amcan (1) yn mis Hydref 1999. Cwblhawyd amcan (2) yn Mehefin 2000 ac mae'r prosiect bellach wedi dod i ben. Nid oedd y gwaith hwn yn golygu defnyddio deunydd niwclear.
3		Ailbrosesu tanwydd niwclear	Atomic Energy Research Ltd., Building Area 51, Becquerel Place, Saltswold, DU	Ymchwilio i ddulliau ymdoddiad newydd ar gyfer tanwydd sy'n llosgi'n ffyrnig. Rhif Prosiect NDM-15. Mewn cydweithrediad â SZQ, 23 East Street, Smirna, Pangea. Dyma'r amcanion: (1) i ddarganfod y problemau gyda'r dulliau ymdoddi presennol, a (2) i ddarganfod cyfryngau newydd ar gyfer ymdoddi, a (3) i gynnal treial dechreuol o sgwpio yn defnyddio rhodenni tanwydd sydd wedi ac heb eu pelydru. Rhodenni sy'n cynnwys mesurau is-gram o wraniwm a phlwtoniwm a gyfoethogwyd ychydig. Y dyddiadau sydd wedi eu cynnig ar gyfer cwblhad yr amcanion yw: (1) Chwefror 2001, (2) diwedd 2001 a (3) diwedd 2002.

Eglurhad o Erthygl 2.b

1. Dim ond gweithgareddau ymchwil a datblygu sydd â chysylltiad penodol â chyfoethogi, ailbrosesu tanwydd niwclear neu brosesu gwastraff canolradd neu lefel uchel sy'n cynnwys plwtoniwm, wraniwm a gyfoethogwyd yn helaeth neu wraniwm-233 ac sy'n digwydd ar y cyd, neu sy'n berthnasol i NNWS a ddylai gael eu cofnodi.
2. Bydd yr wybodaeth sydd ei angen yn y pennawd a'r golofn 'Cyf' yn cael ei gwblhau gan UKSO. Mae canllawiau ar gyfer y golofn 'Cofnod' i'w cael yn yr adran ARWEINIAD CYFFREDINOL.
3. Ar gyfer pob cofnod dylid cynnwys un o dri maes perthnasol o fewn ymchwil a datblygu, h.y. cyfoethogi, ailbrosesu neu brosesu gwastraff yn y golofn "Pwynt yn y Gylchred Tanwydd Niwclear" fel y bo'n briodol. Pan fo prosiect ymchwil a datblygu unigol yn cynnwys gweithgareddau ar fwy nag un safle dylid cofnodi y gweithgarwch ymhob lleoliad ar wahân.
4. Fel a nodir yn Erthygl 18.a o'r Protocol Ychwanegol, dylai'r gweithgareddau ymchwil a datblygu a gofnodir fod yn gyfyngedig i'r rhai sydd â chysylltiad penodol â phroses neu wedd o system ddatblygu yn un o'r tri adran o'r gylchred danwydd. Er enghraifft, ble mae perthynas â NNWS, rhaid cofnodi'r mathau canlynol o weithgareddau:
 - unrhyw weithgareddau ymchwil a datblygu perthnasol i'r tair adran o'r gylchred danwydd y cyfeirir atynt yn 1 uchod, sy'n defnyddio deunydd niwclear neu ddeunyddiau a ddefnyddir i ddynwared deunydd niwclear ac sy'n berthnasol i un o'r tri rhan o'r gylchred danwydd y cyfeirir atynt yn 1 uchod, (lle mae'r ymchwil a datblygu yn defnyddio deunydd niwclear rhaid nodi hynny'n eglur yn y Disgrifiad Cyffredinol);
 - unrhyw weithgareddau ymchwil a datblygu sy'n cynnwys eitemau cyfan o'r offer penodol a restrwyd yn Rhannau 3 a 5 o Atodiad II y Protocol (h.y. yr adrannau hynny sy'n berthnasol i gyfoethogi ac ailbrosesu);
 - gweithgareddau ymchwil a datblygu trwy fodelu cyfrifiadurol sy'n berthnasol i unrhyw un o'r tair adran o'r gylchred danwydd y cyfeirir atynt yn 1 uchod; a
 - ymchwil cymwysedig yn berthnasol i ddatblygu proses yn un o'r tair adran o'r gylchred danwydd lle mai cymhwysiad niwclear yw'r nod terfynol (enghreifftiau o hyn yw dylunio nodweddion sy'n gysylltiedig â rheoli critigolrwydd a chynhyrchu cydrannau o deunyddiau sy'n gallu gwrthsefyll UF6).

Nid oes rhaid cofnodi gweithgareddau sy'n ymwneud ag ymchwil wyddonol ddamcaniaethol neu sylfaenol, datblygiadau sy'n cymhwyso radioisotopau diwydiannol, cymwysiadau meddygol, hydrolegol neu amaethyddol, effeithiau

iechydol ac amgylcheddol. Rhaid cofnodi unrhyw waith sy'n gysylltiedig â diogelwch. Er enghraifft, ni fyddai angen cofnodi ymchwil a datblygu i'r defnydd o radioisotopau fel traswyr ar gyfer gwella diagnosis meddygol. Yn yr un ffordd ni fyddai angen cofnodi ymchwil a datblygu mesuriadau niwtronau actif mewn deunydd sydd ddim yn niwclear neu waith ar ddatblygu gweithdrefnau iechyd ffiseg ar gyfer adweithyddion niwclear. Mae cofnodi trin gwastraff wedi ei gyfyngu i wastraff canolradd neu uchel (ILW/HLW) sy'n cynnwys plwtoniwm, wraniwm a gyfoethogwyd yn helaeth neu wraniwm-233. Nid oes angen cofnodi ymchwil a datblygu ym maes ailbacio a chyflyru gwastraff, cyn belled na wahanir yr elfennau.

Os oes amheuaeth ynglŷn a'r angen i gofnodi prosiect arbennig dylid cysylltu â'r UKSO am arweiniad.

5. Dylai'r golofn 'Lleoliad' gynnwys enw a chyfeiriad y corff lle mae'r ymchwil yn digwydd. Mae'r wybodaeth hon yn hanfodol hyd yn oed os yw enw a chyfeiriad y rhiant-gorff wedi ei nodi'n barod. Dylai'r cyfeiriad fod yn ddigon manwl fel bod yr IAEA yn gallu darganfod y berthynas ddaearyddol â lleoliadau eraill a nodwyd yn y datganiad hwn neu yn natganiadau eraill y Wladwriaeth. Lle mae mynediad yn angenrheidiol dylai'r IAEA fod â'r gallu i hysbysu'r angen am fynediad heb unrhyw amwyster mewn perthynas â lleoliad. Lle bo unrhyw amheuaeth ynglŷn â'r lleoliad, dylid darparu cyfesurynnau fel bod yr IAEA yn gallu lleoli'r gweithgaredd ar fap topograffig manwl. Os yw'r gweithgaredd wedi ei leoli mewn cyfleuster niwclear, dylid nodi rhif yr adeilad ble mae'r gweithgaredd yn digwydd yn y golofn "Lleoliad".
6. Yn gyffredinol bydd y datganiadau diweddar sy'n dilyn Erthygl 2.b yn adroddiadau statws sy'n cofnodi'r gwaith a wnaethpwyd dros gyfnod arbennig o amser (e.e. statws y gwaith ar ddiwedd y flwyddyn galendr yn dilyn gweithgareddau a gymerodd le dros y flwyddyn ddiwethaf). Dylid cofnodi prosiectau sydd wedi dod i ben yn ystod y flwyddyn fel prosiectau sydd wedi terfynu er na fyddai'r prosiect yn bodoli ar ddiwedd y cyfnod datgan.
7. Ar gyfer pob gweithgaredd ymchwil a datblygu dylid cynnwys y canlynol yn y golofn "Disgrifiad Cyffredinol" (yn y drefn hon):
 - a. teitl y gweithgaredd ymchwil a datblygu;
 - b. rhif prosiect y gweithgaredd neu unrhyw gôd unigryw er mwyn osgoi unrhyw amwyster ynglŷn â chyfeiriadau i'r gweithgaredd yn y dyfodol;
 - c. enw a chyfeiriad y corff preifat sy'n noddi'r gweithgaredd os yw'n wahanol i'r un sy'n gwneud y gwaith ymchwil a datblygu;
 - d. manylion ynghylch y corff a'i leoliad o fewn NNWS lle y ceir cydweithio ar weithgaredd ymchwil a datblygu. Os yw'r wlad arall hefyd yn gyfrannog o'r Protocol Ychwanegol dylai'r wlad honno hefyd ei gofnodi fel prosiect ar y cyd;

- e. amlinelliad byr o'r gwaith sy'n digwydd e.e. datblygiad o ddeunydd cryfder sbesiffig uchel, modylau sbesiffig uchel, deunydd ffilamentog anadweithiol gemegol a gweithgynhyrchu rotorau cyflymder uchel ar gyfer allgyrchyddion nwy sy'n cael eu defnyddio i gyfoethogi wraniwm;
 - f. amcanion y gweithgaredd ymchwil a datblygu, a'r hyn sydd wedi ei gyflawni ar amser y datganiad (e.e. a yw'r gwaith wedi dechrau, ar ei ganol neu wedi ei gwblhau);
 - g. cymhwysiad bwriedig canlyniad yr ymchwil a datblygu (os nad yw hyn yn amlwg o'r amcanion);
 - h. yr amserlen ar gyfer y prosiect, gan gynnwys dyddiad cwblhau; a
 - i. datganiad sy'n nodi os yw'r ymchwil a datblygu yn defnyddio deunydd niwclear, h.y. un ai 'mae'r gwaith hwn yn defnyddio deunydd niwclear' neu 'nid yw'r gwaith hwn yn defnyddio deunydd niwclear'. Os bydd, dylid rhoi syniad bras o'r maint a math o ddeunydd niwclear a ddefnyddir (e.e. defnyddir mesurau gram o wraniwm naturiol).
8. Yn ogystal, dylid hysbysu'r IAEA drwy UKSO cyn gynted â phosibl am y lleoedd (os oes rhai) ar safleoedd niwclear neu mewn lleoliadau eraill lle y gallai mynediad rheoledig (yn dilyn Erthygl 7.b o'r Protocol Ychwanegol) fod yn berthnasol. Dylid cynnwys yr wybodaeth hon yn y golofn "Disgrifiad Cyffredinol" ar gyfer pob gweithgaredd ymchwil a datblygu (e.e. gan ddefnyddio'r frawddeg 'Bydd angen mynediad rheoledig ar gyfer y lleoliad hwn'.